

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Trefdraeth/Carningli

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.5 milltir (5.6 km) 2 awr


CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Trefdraeth 412, *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Tir serth, garw wrth agosáu at Fynydd Carningli

CHWILIWCH AM: Golygfeydd gwyh tua'r tir a'r arfordir o gopa Carningli • Bryngaer Oes Haearn gyda rhannau o ragfur a chylchoedd cwt yn amlwg • Tir comin agored • Castell Normanaidd

ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwbrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

Trefdraeth/Carningli

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 3.5 milltir (5.6 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Trefdraeth 412, *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio), Bws Cerddwyr Draig Werdd y Preseli (tymhorol 0845 6860242).

Cyfeirnod map: SN056392

Cyfeiria enw'r dref, Trefdraeth, at y ffaith fod yma dref a thraeth, ond mewn gwirionedd mae gan Drefdraeth ddau draeth – traeth y Parrog a thraeth Trefdraeth – ac mae'r rhain yn cael eu gwahanu gan yr Afon Nyfer.

Mae un o'r brynau mwyaf trawiadol yn Sir Benfro, sef Carningli greigiog, yn sefyll yn warchodol dros dref Trefdraeth.

Wrth i'r haul fachlud, mae siâp Carningli yn erbyn yr awyr goch yn gwneud iddi edrych yn fwy fel llosgfynydd, ac yn wir dyna oedd ar un adeg. Ei chraig dolerit caled yw'r craidd solid o fagma wedi oeri a oedd unwaith yn galon i'r llosgfynydd. Ond da chi, peidiwch â phoeni, mae yna 450 miliwn o flynyddoedd ers iddi ffrwydro ddiwethaf.

Ystyr Carningli yw Mynydd (Carn) yr Angylion. Efallai ei fod yn safle sanctaidd ymhell cyn yr oes Gristnogol, ond ers Oes y Saint fe fu cysylltiad rhwng pen y bryn a'r sant Celtaidd Sant Brynach. Nid oes rhyw lawer yn wybyddus am Frynach, a oedd yn genhadwr o'r 6ed ganrif.

Disgrifir ef gan un o'r cyfeiriadau prin ato fel 'Mab Israel', a dywedir ei fod yn siarad ag anifeiliaid ac adar. Yn ôl y chwedl, arferai Brynach gymuno ag angylion, o bosib ar gopa Carningli.

Gwrandewch am gân yr ehedydd ac efallai y clywch chi alwad trwynol, cras y gigfran hefyd. Mae Comin Carningli yn borfa i ddefaid, gwartheg a merlod sy'n crwydro'n rhydd. Ymhob man mae yna gliwiau i anheddiad yn yr oes a fu. Roedd yna fryngaer ar Carningli yn ystod yr Oes Haearn, a gellir gweld olion grwpiau o gytiâu o'r Oes Efydd rhwng Carningli a Charn Edward.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

